

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 9fed o Orffennaf 2020 drwy Zoom yn brydlon am 8:00 y.h.

Fe anfonir linc i ymuno cyn y cyfarfod.

Materion angen sylw oherwydd na ellir cynnal cyfarfod yn y man arferfol, oherwydd y 'COVID 19'.

Y Clerc wedi derbyn gwybodaeth gan ALCC yn dweud y dylai pawb weithio oddi cartref os yw hynny'n bosibl (yng nghyd destun cynghorau lleol), a gellir defnyddio'r dechnoleg 'Zoom' (neu debyg) hyd at fis Mai 2021.

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 18ed o Fehefin 2020.
3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Mehefin 2020 - (bydd angen trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi yn dilyn y cyfarfod).
4. Datgan buddiant personol.
5. **Pwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru** - angen dewis cynrychiolydd i fynychu'r cyfarfodydd.
6. **Grwp Mynediad Dwyfor** - Mr Dylan Thomas wedi cytuno i fod yn gynrychiolydd eto eleni.

7. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

Llythyr gan Mr Dilwyn Williams, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd-yn gofyn am farn Cynghorau Cymuned a Thref, ar yr ymdeimlad cyffredinol o fewn ein ardal ynglŷn â'r sefyllfa 'Covid' o gofio bydd llawer mwy o ymwelwyr yn dod i'r ardal. Mae'n dweud gan gymryd fod codi a llacio rheolau yn mynd i ddigwydd, byddai'n ddefnyddiol cael gwybod a oes yna unrhyw beth y dylai Cyngor Gwynedd ystyried ei wneud yn ymarferol (o fewn ei pwerau)fyddai'n helpu i leddfu unrhyw bryderon lleol am y ffaith y bydd yr economi yn ail agor. **Angen trafod.**

8. **Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned:-**

- a) Cais Rhif:C20/0439/37/YA - Bryn Helyg Ltd., Glasfryn, Llanaelhaearn, LL53 6RD - adeiladu sied amaethyddol. **Angen penderfyniad.**
- b) CaisC20/0440/37/YA - Bryn Helyg Ltd., Glasfryn, Llanaelhaearn, LL53 6RD - adeiladu traciau amaethyddol. **Angen penderfyniad.**

Materion yn y gymuned.

9. **Llanystumdwy**
10. **Rhoslan/Ynys**

Coeden yn hongian ar draws y lon, ger Coedcaedu, Ynys, Cricieth, a bod ei gwreiddiau wedi codi ac yn pwyso ar goeden arall, a'i bod yn edrych yn beryglus- **Clerc wedi anfon ebost i Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.**

11. **Chwilog**

Peipen garthffosiaeth- threthdalwr yn son fod peipen bridd yr 'over flow' o system garthffosiaeth pentref Chwilog wedi torri cyn cyrraedd pen ei thaith i'r afon, sef y beipen 'hen ffasiwn' bridd. Poeni os oes llygriad ar y tir/afon ac angen trefnu i holi Dwr Cymru?

12. **Pencaenewydd/Sardis**

13. **Llangybi**

14. **Enwau lleol** - Cais gan Mrs Marian Evans, i ystyried gosod arwyddion o enwau lleol yn y gymuned, sef enwau pontydd, afonydd, enw cynhenid ambell groesffordd, a'i gwneud yn weledol i bawb ei gwybod a'i defnyddio i'r dyfodol.

Y Clerc wedi cysylltu hefo Mr Dylan Wynn Jones, Rheolwr Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau, Cyngor Gwynedd i holi os oes angen cael caniatâd arbennig cyn gallu parhau hefo'r gwaith. Mr Jones wedi cysylltu nol i ofyn os oedd "gennym leoliadau a dyluniadau'r arwyddion yr ydym yn awyddus i'w gosod", er mwyn iddo allu rhoi sylw teg i'r cais. **Angen trafod y camau nesaf.**

15. **Angen caniatad i'r Clerc** roi sylwadau ar geisiadau cynllunio a ddaw yn ystod misoedd Gorffennaf ag Awst ar ol ymgynhori gyda'r Cadeirydd/Is-gadeirydd. **Efallai byddai'n well i gynnal cyfarfod byr drwy 'Zoom' fis Awst os bydd angen i drafod ceisiadau cynllunio yn unig?**

Materion Ariannol

16. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Bydd y Clerc yn anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 8.07.2020.

17. **Archwiliad Allanol Cyfrifon 2019-20.**

Y Clerc wedi anfon y dogfennau y gofynwyd amdanynt at yr Archwilwyr Allanol. Mae hefyd wedi gosod yr hysbysiadau yn y manau priodol ac ar y wefan .

18. **Angen caniatad i'r Clerc** dalu biliau yn ystod misoedd Gorffennaf ag Awst ar ol ymgynhori gyda'r Cadeirydd/Is-gadeirydd.

19. Cyflog a chostau y Clerc fis Gorffennaf 2020 - caniatâd i'w dalu ar 6ed o Awst 2020.

20. Anfonebau angen eu talu mis yma:

Enw/Rheswm	Rheswm	Pris	TAW	Cyfanswm Taliad	Taliad BACS
		£		£	
Criccieth Cleaning	Glanhau arosfanau bws 30.06.2020 - -anfoneb rhif 2683	<u>166.50</u>	<u>33.30</u>	<u>199.80</u>	<u>199.80</u>

Clifford Hughes	Cae chwarae Llangybi.				
	16.04.20 - torri gwellt	<u>96.00</u>			
	04.05.20 - torri gwellt	<u>96.00</u>			
	03.06.20 - torri gwellt	<u>96.00</u>		<u>288.00</u>	
	Gweddill y llwybrau,sef				
	Ffynnon Cybi,	<u>108.00</u>			
	Ceg llwybr Abercin	<u>18.00</u>			
	a thoriad 1af yr isod:-				
	Afonwen,	<u>108.00</u>			
	Ynysgain Bach,	<u>95.00</u>			
Tŷ Newydd,	<u>100.00</u>		<u>543.00</u>	<u>831.00</u>	
Bontfechan- Tyn Morfa,	<u>114.00</u>		<u>(anfoneb rhif 24)</u>		

Cyflog mis Mehefin 2020 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS :- £
Cyflog sylfaenol y Clerc, Mehefin 2020 35 awr x £10.57 =	369.95 - llai treth £74.00=	<u>295.95</u>	<u>295.95</u>
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Mehefin 2020	370.00 x 20% = £74.00	<u>74.00</u>	<u>74.00</u>
Costau'r Clerc Mehefin 2020	£16.65	<u>16.65</u>	<u>16.65</u>

Cyflog mis Gorffennaf 2020 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM - oherwydd nad oes cyfarfod mis Awst 2020.

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS:- £
Cyflog sylfaenol y Clerc, Gorffennaf 2020 35 awr x £10.57 =	369.95 - llai treth £74.00	<u>295.95</u>	<u>295.95</u>
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Gorffennaf 2020	370.00 x 20% = llai treth £74.00	<u>74.00</u>	<u>74.00</u>
Costau'r Clerc Gorffennaf 2020	16.65	<u>16.65</u>	<u>16.65</u>

Bydd angen penderfynu ar ddyddiad fis Medi 2020, i gynnal y cyfarfod nesaf - 03.09.2020 yw'r dydd Iau cyntaf yn y mis.

It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.